



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YMGYNGHORIAD AR AGOR

# Canllawiau Statudol Adolygu Diogelu Unedig Sengl (ADUS): gwybodaeth ymgyngori

Yr ydym yn ymgynghori ynghylch proses adolygu diogelu newydd i Gymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 6 Mawrth 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 6 Mawrth 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-sengl-adus-gwybodaeth-ymgyngori-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

Trosolwg

Sut i ymateb

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Eich hawliau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-sengl-adus-gwybodaeth-yngyngori-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mawrth 2023

Camau i'w cymryd: ymatebion erbyn 9 Mehefin 2023

Rhif: 45286

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn am Ganllawiau Statudol sy'n anelu i greu proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) ar gyfer Cymru.

Mae'r ADUS yn enghraifft unigryw ac arloesol o sut, drwy gydweithio a chyd-gynhyrchu ar draws ffiniau gwleidyddol, sefydliadol a daearyddol, y gallwn fynd i'r afael â phroblem gymhleth a chyflwyno ymateb ar y cyd. Mae bron 200 o randdeiliaid wedi bod yn ymwneud â chynllunio a chyflenwi'r ADUS, ac mae pob un ohonynt wedi rhoi'r unigolion sydd wedi'u niweidio, eu teuluoedd a chymunedau yn gyntaf. Mae'r trawsnewid hwn yn cefnogi ein hethos un gwasanaeth cyhoeddus, yn creu diwylliant cryfach o atebolrwydd, ac arweinyddiaeth wasgaredig sy'n rhoi'r grym i bobl rannu dysgu.

Mae'r ADUS yn pennu'r fframwaith ar gyfer y ffordd y dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol weithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau eraill yn yr ardal, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn diogelu pobl rhag niwed – gan rannu gwersi a sicrhau ein bod ni'n cydweithio i sicrhau lles pawb yng Nghymru.

Bydd y broses hon yn symleiddio'r dirwedd adolygu yng Nghymru drwy gyfuno'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl, Adolygiad Lladdiad Domestig ac Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol presennol. Bydd y canllawiau statudol yn disodli Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrolau 2 (Adolygiadau Ymarfer Plant) a 3 (Adolygiadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-sengl-adus-gwybodaeth-ymgyngori-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ymarfer Oedolion). O ganlyniad, gwneir newidiadau canlyniadol i Gyfrol 1 (Cyflwyniad a Throsolwg) er mwyn adlewyrchu hyn.

## Sut i ymateb

Cewch ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn y ffyrdd canlynol:

- cwblhau ein **ffurflen ar-lein**
- cwblhewch y **ffurflen ymateb i ymgynghoriad** ar gefn y ddogfen hon a'i dychwelyd atom drwy ei hanfon mewn e-bost at:  
**[ADUSCymru@llyw.cymru](mailto:ADUSCymru@llyw.cymru)**
- neu drwy'r post at:

Ymgynghoriad Adolygiad Diogelu Unedig Sengl  
4ydd Llawr y Gogledd  
Diogelu ac Eiriolaeth  
Is-adran Galluogi Pobl  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-sengl-adus-gwybodaeth-ymgyngori-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Is-adran

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ADUSCymru@llyw.cymru](mailto:ADUSCymru@llyw.cymru)

This document is also available in [English](#).

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn eu rhoi yn rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol yn gweld unrhyw ymateb yr ydych yn ei anfon atom yn eu cyfanrwydd. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud drwy gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-sengl-adus-gwybodaeth-ymgyngori-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-sengl-adus-gwybodaeth-ymgyngori-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ  
e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF

01625 545 745 neu 0303 123 1113

<https://ico.org.uk/>

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-sengl-adus-gwybodaeth-ymgyngori-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).